# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 29 Ionawr 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor J.Warman** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, S.apDafydd, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, N.T.Hunt, S.K.Hunt, C.James, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, D.Lewis, A.Llewelyn, A.R.Lockyer, A.McGrath, J.Miller, R.Mizen, S.M.Penry, D.M.Peters, M.Protheroe, S.Pursey, S.Rahaman, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds, A.J.Richards, P.D.Richards, M.Spooner, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | S.Phillips, H.Jenkins, A.Evans, A.Jarrett, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, C.Morris, C.Furlow-Harris and A.Manchipp |
| **Cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Cyfieithu:** | Present |

---

1. **CYHOEDDIADAU'R MAER.**

Roedd yn ofid mawr i'r Maer hysbysu'r cyngor am farwolaeth y canlynol :

Tad Arweinydd y Cyngor:
Tad y Cynghorydd Suzanne Renkes:
Gwraig y Cynghorydd Mike Harvey a
chyn-Bennaeth Dros Dro Rheoli Newid ac Arloesi, Mr Philip Graham.

Fel arwydd o barch, safodd y cyngor am funud o dawelwch.

2. **DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR A'U CADARNHAU OS YSTYRIR BOD HYN YN ADDAS:**

**PENDERFYNWYD:** Cadarnhau cofnodion cyfarfod y cyngor isod fel cofnod cywir:-

16 Hydref a 27 Tachwedd, 2019.

3. **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR**

**PENDERFYNWYD:** Y bydd y cyngor yn cymeradwyo'r canlynol mewn perthynas â sefydlu ei Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021:

- Cymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 fel y'u diwygiwyd ymhellach gan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2020;

- Cymeradwyo cadw'r elfennau dewisol presennol mewn perthynas â'r Cynllun Rhagnodedig:

(a) Na ddylid cymhwyso unrhyw gynnydd yn y cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pob hawliwr o'r 3 mis safonol a gynhwysir yn y Cynllun Rhagnodedig.

(b) Na ddylid cymhwyso unrhyw gynnydd yn y cyfnod gostyngiad estynedig ar gyfer pob hawliwr o'r 4 wythnos safonol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rhagnodedig ar hyn o bryd.

(c) Cymhwyso diystyriad 100% ar gyfer Pensiynau Anabledd Rhyfel, Pensiynau

Rhyfel Gwŷr a Gwragedd Gweddw ar gyfer pob hawliwr.

4. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT 2011-2026**

Cyflwynwyd yr eitem gan Arweinydd y Cyngor. Cytunodd yr Aelodau ar bwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r adolygiad. Yn benodol, mynegodd aelodau'r farn ynghylch y cydbwysedd rhwng trefi, cymoedd a'r ardaloedd arfordirol. Gellid edrych ar bolisïau ynghylch, er enghraifft, Tai Amlfeddiannaeth yn ystod yr adolygiad.

Yna nododd yr Aelodau y byddai'r Cynllun Datblygu Lleol presennol (CDLl) yn estyn tan 2026, a byddai'r cynllun newydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 2020 a 2035. Byddai'r adolygiad ei hun yn cymryd pedair blynedd ac yn parhau i gyfnod y cyngor newydd yn 2022.

Anogodd swyddogion yr Aelodau i gysylltu â swyddogion pe bai ganddynt unrhyw ymholiadau.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) drafft, fel y'i nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd, fel un a fydd yn sail ar gyfer ymgynghori wedi'i dargedu ac y byddai'r gweithdrefnau cyhoeddi ac ymgynghori fel y'u nodir ynddo'n cael eu rhoi ar waith.

5. **PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT - AELOD O'R CYNGOR TREF/CYMUNED**

**PENDERFYNWYD:** Penodi'r Cynghorydd Cymuned, Carl Williams, i gynrychioli'r cynghorwyr cymunedol ar y Pwyllgor Safonau ac y dylid penodi'r Cynghorydd Tref, Gerry Reynolds, yn ddirprwy.

6. **NEWIDIADAU I'R CYLCH CYFARFODYDD**

Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd ystyried cyfyngu cyfarfodydd yn ystod gwyliau'r ysgol, os yw hynny'n bosib, pan fydd y cylch pwyllgor ar gyfer y flwyddyn ddinesig newydd yn cael ei gwblhau.

**PENDERFYNWYD:** Am y rhesymau a geir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, y bydd amlder cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles/Bwrdd y Cabinet yn dychwelyd i gylch chwe wythnos tan flwyddyn ddinesig newydd 2020/2021 ac y dylid rhoi ystyriaeth bellach i gyfyngu cyfarfodydd yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol.

7. **DERBYN Y CANLYNOL AC UNRHYW GWESTIYNAU A OFYNNIR GAN YR AELODAU, NEU UNRHYW FATERION SYDD I'W CODI GAN AELODAU'R CABINET:-**

**PENDERFYNWYD:** Nodi'r canlynol:-

| | |
|---|---|
| Y Cabinet | 30 Hydref 2019 |
| Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles | 17 Hydref 2019 |
| Adfywio a Datblygu Cynaliadwy | 18 Hydref 2019 |
| | |
| Adfywio a Datblygu Cynaliadwy | 29 Tachwedd 2019 |

8. **EITEMAU BRYS**

Gyda chaniatâd y Maer, codwyd yr eitem ganlynol fel eitem frys.

**Rhesymau dros y brys:**

Oherwydd yr elfen amser.

9. **BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor wrth yr aelodau fod prosiectau'r awdurdod a oedd wedi'u hailweithio wedi'u cymeradwyo mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2020. Gwerth y prosiect oedd tua £60m, y byddai £45m ohono'n dod o gronfa Rhaglen y Fargen Ddinesig. Byddai'r prosiectau yn awr yn cael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i'w cymeradwyo.

Roedd yr Aelodau'n falch o'r newyddion a nodwyd bod cyfarwyddwr rhaglen newydd wedi'i benodi i Swyddfa Rhaglen y Fargen Ddinesig.

**CHAIRPERSON**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag